Gair bach Bethlehem 38

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 32 202 (Rhifyn cyn Nadolig)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Neges Nadolig Delwyn

Doethion a ddaethant o'r Dwyrain...

Yn gyntaf, ga'i ddymuno Nadolig Llawen i chi gyd. Y Nadolig, tymor drama'r geni, angylion, bugeiliaid, Mair a Joseff a'r baban Iesu, Herod, ac wrth gwrs y Doethion. Ie, y 3 (neu o bosib 4) a ddaeth o bellteroedd Persia. Y Doethion a benliniodd o flaen y baban, ac a roddodd eu rhoddion gwerthfawr o aur a thus a myrr iddo. (Wel, i'w rieni siŵr o fod, "safe keeping" ac ati !) Ond, fel soniais i yn yr oedfa ddechrau'r mis, tybed nag yw hi'n bosibl i ni weld y rhoddion mewn golau newydd, nid fel rhoddion gwerthfawr yn unig, ond rhoddion oedd yn arwydd o gyfoeth diwylliant a chrefydd arall. Roedd y Doethion yn cynnig a rhoddi a *rhannu* o bethau gorau eu traddodiad nhw gyda'r teulu bach oedd yn dod o draddodiad a chrefydd gwbwl wahanol, ac roedd y teulu bach yn eu derbyn, a hynny'n llawen, a gyda diolch.

A tybed nad dyna ddylai ddigwydd 2,000 o flynyddoedd yn ddiweddarach yn ein dyddiau ni, rhannu y gorau o'n traddodiadau gyda'n gilydd, er mwyn deall ein gilydd yn well. Cyfoethogi'n gilydd, nid gwneud ein gilydd yn dlotach. Rhoi, a hynny o'n gorau, a sdim adeg well i wneud hynny na'r Nadolig.

Cwestiwn i chi. Pwy bydde chi'n dewis fel y 3 Gŵr neu Wraig Ddoeth y Nadolig hwn? Ga'i gynnig un enw i chi. Un sy'n perthyn i draddodiad a diwylliant a chrefydd wahanol i ni, ond sy'n cynnig rhoddion gwerthfawr yn amal - y Dalai Lama. Ac *un* o'r rhoddion mae wedi gynnig yw'r weddi hon, gweddi mae'n myfyrio arni'n ddyddiol. Felly, dyma weddi i chi gan un o'n Doethion cyfoes, gweddi a rhodd i rannu dros yr Ŵyl.

"Boed i mi fod yn amddiffynfa i'r rhai sy' angen eu hamddiffyn,
Yn dywysydd i'r rhai sydd ar y ffordd.
Cwch neu fâd neu bont i'r rhai sy'n croesi dyfroedd tymhestlog.
Boed i mi fod yn llusern yn y tywyllwch, gorffwysfa i'r lluddedig, a moddion i iachau'r cleifion.
Ffiol orlawn, a choeden o wyrthiau!
Ac i'r nifer di-ri o bobl ar y blaned, boed i mi gynnig cynhaliaeth, a deffroad, nes bydd y byd i gyd yn rhydd o dristwch, a bydd pawb yn effro i'r goleuni."

Ie, Doethion a ddaethant o'r Dwyrain …

Delwyn

Suliau Bethlehem – Y Nadolig, Calan a Ionawr

Rhagfyr 2022:

11 Rhagfyr – Oedfa Naw Llith a Charol (5:00 p.m.)
[NODER: **Bydd ymarfer ar gyfer cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul yn y capel ar fore 11eg o Ragfyr**]
18 Rhagfyr – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul (10:30 a.m.)
25 Rhagfyr – Oedfa dydd Nadolig (10:00 a.m.)

Ionawr 2023:

1 Ionawr – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (10:30 a.m.)
8 Ionawr – Oedfa dan ofal Emlyn Davies
15 Ionawr – Oedfa Blygain (5:00 p.m.)
22 Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
29 Ionawr – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

Paratoi Te i'r Di-gartref yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd

Fe gofiwch i'r drefn o baratoi "Te i'r Di-gartref" yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, ail-gychwyn yn yr haf eleni, wedi peth hirlwm oherwydd y cyfnod clo. Mae'r adroddiadau am y niferoedd bychan sydd bellach wedi bod yn mynychu o Sul i Sul siŵr o fod wedi codi amheuon yn ein meddyliau ni am yr angen i fod yn rhan o'r cynllun mwyach.
Mae'n diolch i Ann ac Ian Hughes am barhau'r cyswllt rhyngom, ac am fynychu yn ôl y gofyn pan ddaw tro Bethlehem ar y rota. Mae'n diolch i eraill yn ogystal am eu parodrwydd i wirfoddoli gyda'r drefn honno.

Yn ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod o gynrychiolwyr yr eglwysi sydd wedi bod yn darparu a chynnig cymorth, ac er nad yw'r cofnod swyddogol ar gael hyd yma, dyma'n fras yr hyn a drafodwyd ac a nodwyd gan Ian:-

1. Mae Tabernacl wedi cael ei gofrestru gyda Chyngor Caerdydd fel "Man Cynnes", a dros y penwythnos bydd yn darparu'r un fath o wasanaeth ag y mae'r Llyfrgell Ganolog dros y ffordd yn ei gynnig yn ystod yr wythnos, h.y. lle clyd, cynnes, cartrefol i unrhyw un sydd arnynt angen am le felly.
2. Bydd y Tabernacl yn ymestyn oriau ei gaffi bore Sadwrn. (Gyda llaw, bydd Eglwys Minny Street yn gwneud rhywbeth tebyg ar gyfer myfyrwyr sydd yn byw yn y strydoedd cyfagos.)
3. Yn fwyaf perthnasol i ni:-
Bydd yr hen drefn "Te Pnawn Sul "ar gyfer y Di-gartref" yn droi yn "Fan Cynnes" o 2 tan 5 bob prynhawn Sul.

Felly…….

- Bydd angen criw o wirfoddolwyr i fod yn bresennol bob pnawn Sul o 2 tan 5.
- Falle bydd Dr Rosa Hunt (gweinidog newydd y Tabernacl) ei hun yn bresennol ar brydiau, yn ogystal a'r gwirfoddolwyr o'r eglwysi, a pherson cyswllt y Tabernacl (e.e. Eluned, Huw…). Ac roedd sôn am ofyn i rywun o Gyngor Caerdydd/CAB bicio i mewn am awr neu ddwy.
- Bydd brechdanau, diodydd poeth, bisgedi, ffrwythau ar gael fel o'r blaen.
- Mae'n fwriad darparu rhyw fath o ddifyrrwch ar gyfer y gwesteion, e.e. gemau bwrdd.
- (Fy syniad i yw rhoi allan papurau'r Sul a chylchgronau.)
- Bydd rhyw fath o bryd parod ar gael, e.e. Cupasoup.

Cyn tro nesaf Bethlehem (mis Chwefror 2023, yn ôl pob tebyg), bydd y sefyllfa yn dod yn gliriach. Falle bydd yr "uptake" yn bitw ac felly bydd y cynllun yn dod i ben yn y gwanwyn.
Ar y llaw arall, os bydd digon o alw am y Man Cynnes, bydd angen i ni fel eglwys naill ai roi ymroddiad i'r drefn newydd neu….?? Nid fy mhenderfyniad innau! Yn y cyfamser bydd Ann a fi yn gwneud ein gorau glas!

Ian Hughes

Caniadaeth y Cysegr Tachwedd 6ed

Daeth y neges isod oddi wrth Gynhyrchydd "Caniadaeth y Cysegr", Ceri Wyn Richards, yn dilyn y recordio ar Sul y 6ed o Dachwedd 2022:-

"Gair o ddiolch i bawb fu'n ymwneud a'r recordiad yn y Gwaelod Sul diwethaf. Gyda'n cymanfaoedd yn prinhau a'r canu 4 llais yn dirywio, 'roedd hi'n braf clywed canu SATB cadarn a chyhyrog gan gantorion Bethlehem.

'Roedd y plant hefyd yn hyfryd o swynol a bywiog.

Dwi'n wirioneddol ddiolchgar am yr holl waith paratoi trwyadl a wnaethpwyd."

'Rydym ninnau fel cynulleidfa yn ddiolchgar i Eilir Owen Griffiths a Delyth Evans am eu gofal a'u harweiniad yn ein tywys trwy'r emynau trwy gydol y cyfnod paratoi. *(Gweler hefyd hanesion am Gymanfaoedd y dyddiau fu – ar dudalen 14)*

EIN SWPER NADOLIG

Bydd yr ymgyrch i gefnogi ein dewis elusen leol, Cymdeithas Alzheimer Cymru, yn cychwyn yn swyddogol ar

Nos Wener, Rhagfyr 16, am 7:00 p.m.

Bryd hynny cawn noson gymdeithasol a swper Nadolig (dewch a phlatiad o fwyd gyda chi).

Bydd cyfle i greu addurniadau Nadolig i'w gosod yn y Capel dros yr Wyl, hefyd cawn ganu Carolau, a bydd ambell i dasg llenyddol i'w gosod ar y noson.

DEWCH YN UN TEULU LLON,

YN BLANT AC OEDOLION

I FWYNHAU BRYD HYNNY

Cofiwch hefyd am …

Côr CF1 a Chôr y Gleision

yn dod at ei gilydd
i berfformio gwaith **Eilir Owen Griffiths**
ar gyfer Côr a Cherddorfa Siambr

"Christus Natus Est"

Nos Sadwrn Rhagfyr 17
Capel y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd,

Tocynnau ar gael drwy e-bostio:- cardiffblueschoir@gmail.com

Yr unawdwyr:
Rhodri Jones, (a ganodd Teilwng yw'r Oen gyda ni)
a **Siwan Henderson**, (aelod o "Welsh of the West End.")

Tra roedd y rhifyn hwn o'r Gair Bach yn cael ei baratoi, roedd y Cwrdd Merched (ar y cyd â Merched y Wawr, Y Garth) yn mwynhau cyflwyniad Marian Ifans, Radur, a'i chynghorion Nadoligaidd. Mae Marian wedi croniclo dau o'r ryseitiau isod. Felly, os byddwch chi wedi diflasu ar dwrci, mins peis a llugaeron, efallai hoffech chi roi cynnig ar y rhain.

Danteithion Bethlehem Bach

Marian Ifans

Wraps Twrci a Brie

Cig twrci – tua 1lb : 4 wrap tua 10" : 4oz Brie : saws Ceirios y Wern : Dail rocket
Toddwch y Brie rhyw fymryn, taenwch ar y wraps, yna'r twrci, yna'r ceirios a'r rocket. Rhowliwch nhw'n dynn, eu sleisio ar oledd("acha slant" i'r Hwntws!) sgiwer fach bren.

Brownies gyda mins peis a llugaeron

- 175g menyn heb ei halltu a'i dorri'n fân
- 175 siocled tywyll wedi ei falu'n ddarnau mân
- 250 siwgr caster
- 3 wy canolig wedi eu curo
- 50g powdr coco
- 75g blawd plaen
- 4 mins pei wedi eu torri
- 4 llwy fwrdd saws llugaeron

Popty 160 ffan / nwy 4. Irwch a leiniwch dun 25cm sgwâr gyda phapur
Toddwch y menyn a'r siocled a gadewch iddo oeri am 10 munud.
Ychwanegwch y siwgr a'r wyau. Gogrwch y blawd a'r coco i'r gymysgedd.
Ychwanegwch y rhan fwyaf o'r mins peis, gan ei dywallt i'r tun.
Ychwanegwch weddill y mins peis ar y top a llwyeidiau bach o'r saws llugaeron.
Craswch am tua 35/40 munud.
Gadewch iddo oeri yn llwyr cyn ei dorri'n 16 darn

Cofiwch!

Oedfa Bore Sul - 18 Rhagfyr

CYFLWYNIAD NADOLIG YR YSGOL SUL

10:30

FFOI I'R AIFFT

R Alun Evans

Bu pedwar Robin yn ymwelwyr cyson â'n tŷ ni. Yr un diweddara' yw hwn [chwith]. Y Robin Goch fu'n gwmni i mi drwy'r bore wrth mod i'n clirio'r ardd at y gaea'.

Ac wrth eu lliwiau "yr adnabyddir hwy." Melyn. Gwyn. Du. Trilliw. Ac i ddangos eu cyfnod, roedd y tri yn 'Yncl'; tri aderyn brith. Pan oedd Rhys a Betsan Powys yn blantos deuai tri Robin heibio i'r tŷ ym Mharc y Rhath yn ddigon aml i haeddu'r teitl 'Yncl.' "Wrth liw eu gwalltiau "yr adnabyddir hwy."

Y cynta' oedd Yncl Robin [gwallt] melyn. Robin Jones BBC oedd e i bawb arall. Mhen rhai blynyddoedd byddai Robin a minnau yn rhan o dîm cyflwyno y rhaglen deledu gylchgronol 'Heddiw' a ddarlledid bob nos o nos Lun i nos Wener tua chwarter i saith yr hwyr. Dyma'r dyddiau ymhell cyn sefydlu S4C fel gwasanaeth. Darlledid rhaglenni Cymraeg ar y BBC fel unedau cwbl ar wahân i'r rhaglenni Saesneg oedd yn sylfaen i'r gwylio. Dyna pam mai "tua chwarter i saith" fyddai hi arno ni'n dechrau. Weithiau byddai'n saith o'r gloch a hyd y rhaglen, o'r herwydd, union hanner yr hyd arferol. Ta waeth am y darlledu, roedd croeso acw i Yncl Robin [gwallt] melyn.

Cydweithiwr arall yn y BBC oedd Yncl Robin [gwallt] gwyn, sef Robin Griffith. I era ill Robin 'Y Cymro' oedd yr ymwelydd yma ac erbyn y cyfnod yr oedd Rhys a Betsan ar eu prifiant byddai'n galw heibio i gynnig ambell blanhigyn i wir arddwr y teulu, sef Rhiannon, neu i drafod materion Cymdeithas y Cymod gyda mi.

Yncl Robin [gwallt] du oedd y trydydd ymwelydd. I bawb arall y Parchedig Robin Williams oedd hwn, baswr Triawd y Coleg; yr un a ganai 'Mŵ Mŵ' yn y gân Triawd y Buarth. Am resymau amlwg fe fyddai nifer o weinidogion yn aros nos yn Arberth (enw'r tŷ) yn Lady Mary Road. Ond y ffefryn, ar gyfri' ei allu i ddiddanu'r ddau fach oedd Yncl Robin gwallt Du. Yn gynnar un bore, tua'r chwech o'r gloch 'ma, clywai Rhiannon a minnau rhyw gyffro o lofft yr ymwelydd. O sbecian drwy'r drws agored gwelwyd golygfa ryfeddol!

Roedd Rhys wedi cnocio ar ddrws llofft Robin; Betsan ag yntau yn deffro Robin er mwyn iddo ddweud stori (arall eto) wrthyn nhw. Aeth Robin un yn well na hynny. Dwedodd ei stori. Cododd o'i wely. Gwisgodd amdano ei *'ddressing gown'* a chlymu tywel am ei ben. Gwisgodd dywel, a braidd dim arall, ar bennau'r plant. Gafaelodd yn y ffon oedd i agor y drws i'r atig; ef yn arwain a'r ddau fach yn dilyn gam wrth gam i lawr am y gegin. Ac wrth fynd heibio i ni dyma Robin yn rhoi ei fys ar ei wefus a dweud "Sh ..Sh .... 'Da ni'n ffoi i'r Aifft."

Roedd stori'r geni drosodd am flwyddyn arall.

Pwdin Nadolig Mam

Cerith Davies

Fel plentyn adeg y rhyfel do's gen i ddim lawer o gof am anrhegion amser Nadolig ond ma' gen i gof am fwyd.

Sane gwaith fy nhad oedd hosan Nadolig i ni blant. Ar wahân i fân bethe, fydde pedwar peth ynddi bob Nadolig, sef oren ac afal ar y gwaelod, siocled a chnau – cnau Brasil a 'walnuts (cnau Ffrengig). Oedd rhain yn bethe prin pryd hynny ond oedd fy rhieni yn llwyddo i'w cael bob blwyddyn. Hefyd fydde bocs mawr o 'Black Magic' yn dod i'r golwg, wedi 'i brynu wrth gynilo ar y 'coupons' yn ystod y flwyddyn.

'Roedd fy nhad erioed wedi cadw gieir ar rhyw dipyn o gae oedd gyda ni wrth dalcen y tŷ. Bydde fe hefyd yn cadw pedwar twrci ar gyfer y Nadolig - un i'n teulu ni ac un i bob un o deuluoedd 'i dri brawd o'dd yn byw yn y pentre. Pan o'n i'n hŷn ac yn gyrru, fe fyddwn yn mynd a'n nhad a rhai o'i ffrindie ar y 'trip prynu twrcis' dros y Mynydd Du i ryw ffarm ym mherfeddion Sir Gaerfyrddin. Cywion rhyw fis oed oedd e'n prynu a fydde chi'n meddwl wrth y trin a thrafod fod e'n prynu cant! Wrth gwrs o'dd hwn yn rhan o sbort y dydd, fel o'dd galw yn nhafarn y 'Three Horshoes' yng Ngwynfe ar y ffordd adre. Uchelgais fy nhad oedd magu twrci 20 pownd ond 19 a hanner oedd yr agosa' dda'th e! O'n i bob amser yn cael y 'drumstick' - un ar ddydd Nadolig a'r llall i ginio diwrnod San Steffan.

Roedd rhywun yn nheulu'n nhad yn berchen ar 'steamer' o'dd yn medru gwneud tri phwdin ar y tro a fydde hwn yn mynd o dy i dy i pawb gael gwneud 'i pwdin Nadolig. Gwyddwn i ddim beth o'dd mam yn rhoi yn y pwdin ond hefo sôs gwyn o'dd e'n 'ffantastig'. Hwn o'dd uchafbwynt y ginio i mi a fydde 'i hanner e' ar ôl erbyn trannoeth a dau arall i edrych 'mla'n atynt yn yr wythnose i ddod. Nefoedd i blentyn fel fi!

'Doedd cinio Nadolig a San Steffan byth yn newid o flwyddyn i flwyddyn ond pan o'n i yn hynach o'dd pethe eraill hefyd yn rhan o dymor y Nadolig. Roedd pawb yn yr ardal yn edrych mla'n at y ddawns yn Neuadd Les Cwmtwrch (Ucha) ar noswyl y Nadolig. O'dd hi ddim yn neuadd enfawr ac roedd yr hanner cefn ar oleddf bach ond oedd yr hanner blaen yn wastad. Fydde'r seddi yn cael ei codi a rhoi o'r neilltu a calch gwyn dros y llawr i'w wneud yn ddigon llyfn i ddanso. Y lle yn orlawn, pawb yn nabod 'i gilydd ac o'dd hyn yn gwneud awyrgylch trydanol. Lot fawr o hwyl a sbri, canu efo'r band a shwd gyment yn danso bron fod dim lle i symud. Roedd y ddawns yn gorffen hanner nos, yna cerdded yn griw o fechgyn a merched lan tyle Berrington (meddyliwch am Heol Goch heb y coed ac yn fwy serth) 'nol i Gwmllynfell. Rhwng y cloncan ac ambell i gân o'dd hi tua dau o'r gloch arna i yn cyrraedd gartre. Cwmpo'n syth i'r gwely cyn codi am bump o'r gloch i fynd i Swyddfa'r Post.

Am rhyw bum mlynedd (blynydde ola' ysgol a blynydde coleg) mi fues i'n cario post am bythefnos adeg y Nadolig. Roedd tri postman yng Nghwmllynfell a thri ychwanegol amser Nadolig am iddi fod yn ardal eang - Ystradowen, Tomenowen, Cwmllynfell a Chefen-Bryn-Brain - a shwd gyment o gardie. Roedd pobol yn hoffi cael 'u cardie mor agos i, neu ar

(Parhad ar y dudalen nesaf)

(parhad) ... Pwdin Nadolig Mam — Cerith Davies

ddydd Nadolig. "Ma'r cardie 'ma fel pelen eiria yn rowlio lawr rhiw - mynd yn fwy ac yn fwy bob dydd tan dydd Nadolig" o'dd disgrifiad John y Post. Hwn o'dd y diwrnod mwya bishi ac roedd gofyn bod yn gynnar yn y swyddfa post am fod tipyn o waith 'sortio' cyn cychwyn ar y dosbarthu. Pawb yn hapus i weld y dyn post a'r dyn post yn hapus i'w gweld 'nhw hefyd am fod sawl cil-dwrn ac ambell i wydred bach - sherry fach fan hyn a whisgi fach fan draw. O'n i'n gyfrifol am bost Cefen-bryn-brain ac oedd hwn yn cynnwys ffermydd y Mynydd Du - Brynbrain, Gorshir, Llwyn-y-moch, Waungron, Coedcae Mawr a Ddolgam. Fel arfer byddwn yn gadael 'u post nhw yn y siop fach ar ben y Cefen ond ar ddydd Nadolig oedd rhaid mynd i bob ffarm. Tair milltir ychwanegol o gerdded ond croeso anhygoel ymhob un.

Cyrraedd y ffarm bella', Coedcae Mawr, tua dau o'r gloch. "Dere miwn, ishte wrth y ford " oedd y gwahoddiad. Llond plât o bwdin Nadolig a gwydred da o rum! Yna ymlaen i Ddolgam, ffarm ein teulu ni a chroeso mawr yno hefyd. O'n i adre tua pedwar o'r gloch, mam wedi cadw cinio'n dwym i fi ac, wrth gwrs, y pwdin Nadolig speshial, cyn cwmpo i'r gwely yn hollol 'whacked'.

Daeth diwedd ar ddawns Cwmtwrch ac ar gario'r post, ond os nag o'n i gartre am y Nadolig o'dd mam bob amser yn anfon pwdin i mi - mas i Jamaica pan o'n i'n athro yno ac hefyd i Lunden er mod i'n briod erbyn hynny!

Cyngor buddiol i'ch cadw'n iach yn feddyliol — Wynford Ellis Owen

Roedd Mr Huws y gweinidog yn poeni'n arw am Miss Jones, doedd hi ddim wedi bod yn y capel ers tro. Fe aeth draw i'w gweld hi.
"Miss Jones," medda fo, "dach chi ddim wedi bod yn y capel ers talwm. Pam hynny?"
"Ar y gôt ma'r bai 'dach chi'n gweld, Mr Huws bach."
"Y gôt?" medda'r gweinidog yn syn.
"Ia, tydi hi ddim ffit i neb 'i gweld."
"Twt lol!" medda'r gweinidog, "Tydi Duw ddim yn poeni am be sydd ar y tu allan, Miss Jones. Poeni am be sydd ar y tu fewn mae o."
"Wel, dyna'r broblem 'dach chi'n gweld, Mr Huws bach," meddai. "Y leining sy 'di mynd!"
Ar y tu mewn mae'n poen ninnau hefyd onid e? Y drafferth ydi ein bod ni'n cuddio'r boen rhag y byd. Does dim byd sy'n waeth na thrio ymddangos yn o-cê pan nad ydan ni'n teimlo'n o-cê.
Y WERS?
Heddiw, beth am rannu eich poen gydag un person arall. Mentrwch. Cymrwch risg. Byddwch yn teimlo gymaint yn well o wneud hynny.

Newyddion Bethlehem

Colli Vi Jones

Ar yr 11eg o Dachwedd 2022, bu farw Esther Viona Jones, gynt o Bentyrch, ond a fu ers cyn y cyfnod clo, yn cael ymgeledd mewn Cartref Gofal yn Llanllieni (Leominster). Un o Feidrim oedd Vi, a bu'n byw hefyd yn Rhiwbeina.

Ym mis Mai 2021 y bu farw ei gwr, Gwyn Jones, eto yn y Cartref Gofal hwnnw. 'Roedd y ddau ohonynt wedi dewis symyd i fod yn nes at deulu (nith i Vi) a drigai ar y Gororau. Tan i afiechyd ei goddiweddyd, 'roedd Vi a Gwyn yn fynychwyr selog ym Methlehem, a byddent yn gefnogol i bopeth a wnaed yn enw'r capel.

Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol, dan arweiniad Delwyn Sion, yn yr Amlosgfa yng Nghaerdydd ar y 1af o Ragfyr, a mae'r teulu yn dymuno trefnu cyfarfod i gofio am y ddau ohonynt ym Methlehem yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Sul yr Urdd a Sul Diogelu 2022

Ar Sul yr 20fed o Dachwedd cawsom gyfle i atgoffa'n hunain o gyfraniad Urdd Gobaith Cymru i'n gwlad a'i diwylliant a'i hiaith, ond yn ogystal neilltuwyd ychydig amser i'w gydnabod fel Sul Diogelu. ***(Mae'r lluniau ar y dudalen nesaf.)***

Manteisiwyd ar y cyfle i ddangos ffilm fer wedi ei pharatoi gan y Panel Diogelu Cydenwadol, oedd yn ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb i ofalu am, a diogelu eraill, yn arbennig am rai sy'n fregus – ein cymdogion, yn blant ac oedolion.

"Mewn eglwys, mae'r teimlad o berthyn yn un cryf – ac efallai i ni roi'r cwlwm perthyn hwnnw ar brawf yn fwy nag erioed o'r blaen yn ystod cyfnod cythryblus y pandemig.

Ry'n ni'n perthyn i gynulleidfa, yn perthyn i enwad, yn perthyn i gymuned, fel teulu. Mae hynny'n bwysig. Ac fel unrhyw deulu arall, ry'n ni'n edrych ar ôl ein gilydd ac yn cynnal ein gilydd hefyd. Dyna pam mae sicrhau diogelwch a gofalu am ein haelodau yn hanfodol – o'r ieuengaf i'r hynaf.



Yng Nghymru mae'r Panel Diogelu Cydenwadol wedi creu canllawiau diogelu syml ac ymarferol i ni eu defnyddio yn ein heglwysi ar ffurf llawlyfr eglur ynghyd â hyfforddiant hawdd ei ddilyn. Fe ddylai pob un ohonom gymryd mater diogelu o ddifrif.

Yn y newyddion y dyddiau hyn, fe glywn straeon ofnadwy am gam-drin a thrin pobol yn wael, ac yn aml iawn, fe feddyliwn ni'n dawel bach, 'Fyddai rhywbeth felly ddim yn digwydd i ni.' Ond y gwir yw y gall pethau gwael ddigwydd. Felly, mae mater diogelu'n berthnasol i bob un ohonom, i bob unigolyn ac i bob eglwys, ac mae'n ddyletswydd ar aelodau o'r gymuned eglwysig i sicrhau diogelwch pawb, yn blant ac oedolion bregus.

Yr ydym ni'n dod at ein gilydd fel eglwysi – yn gasgliad o unigolion o bob oed, pob cefndir a phob profiad – rhaid i ni fod yn ofalgar o'n gilydd ac o bawb.

Drwy gyfrwng yr hyfforddiant:-

- ***rydym ni'n dysgu sut mae gwneud ein heglwysi'n fannau diogelach i bawb.***

Gall hyfforddiant ein helpu ni:-

- ***i fod yn hyderus ein bod ni'n gwneud ein rhan i ofalu am blant, pobol ifanc ac oedolion bregus yn ogystal â gweithwyr a gwirfoddolwyr.***

Mae'r hyfforddiant yn ein dysgu ni:-

- ***sut mae sylwi ar bethau a allai fod yn arwyddion o bethau mwy pryderus,***
- ***sut i wrando ar beth mae plant a phobl fregus yn ei ddweud,***
- ***sut mae ymateb yn hyderus ac mewn modd cadarnhaol a sensitif.***

Mae diogelu'n berthnasol i bob un ohonom, fel Cristnogion fedrwn ni ddim fforddio peidio â'i gymryd o ddifrif."

Ein bwriad fel eglwys ydi trefnu'r hyfforddiant priodol yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Sul yr Urdd a Sul Diogelu 2022 (parhad)

[Fel y mwyafrif o'n hoedfaon, mae'r oedfa hon i'w chael ar YouTube: https://youtu.be/BK_CnF-F-pM - diolch i Wyn a'i dechnoleg. Dyma'r rhai fu'n cymryd rhan yn yr oedfa uchod]





A rhaid nodi yr un cyfrannwr nad oedd yn bresennol – Jâms Powys, y peilot awyrennau – oedd wedi anfon neges bob cam o Qatar!

I gofio Branwen

Fel aelodau Bethlehem rydyn ni'n cofio'n gynnes iawn at Catrin, Hefin, Manon a Daniel Mathias, Yr Eglwys Newydd. Fe ddaeth cynulleidfa niferus i Amlosgfa'r Ddraenen Wen i dalu eu teyrngedau i Branwen a bu i Delwyn Sion ddiolch ar ran y teulu am y negeseuon o gysur, o atgofion gwerthfawr, ac o gariad maen nhw wedi dderbyn yn ystod y cyfnod diweddar.

Yng ngeiriau Delwyn, "Rydyn ni wedi dod yma y bore 'ma mewn tristwch - ond hefyd mewn gwerthfawrogiad. Tristwch am yr hyn a gollwyd, ond mewn gwerthfawrogiad a diolch am yr hyn a gaed.

"Ry'n ni yma i gydnabod marwolaeth - ond hefyd i ddathlu bywyd ac i gofio. Cofio Branwen - merch, chwaer, modryb, nith, cyfnither, cydweithiwr, ffrind. Iâr fach yr Haf a laniodd ar gynifer o bobol ac, er mor fregus ei hadenydd, un adawodd ei hôl. Ac mae hynny'n cael ei amlygu yn y negeseuon dirifedi a dderbyniodd y teulu yn ystod yr wythnosau diwethaf."

Wrth sôn amdani fel *'merch yr ail filltir'*, dyfynnodd eiriau cyfeilles a brofodd hynny – "O'n i ddim yn gwybod beth o'dd *gwir* gyfeillgarwch nes daeth Branwen yn rhan o fy mywyd i. Roedd ganddi galon o aur, roedd hi'n ffynnon o lawenydd a goleuni."

Felly hefyd yn ei gwaith bob dydd, yr arbenigwraig yn y Gymraeg oedd yn gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder - a hynny i bawb. Meddai un athrawes "Wna'i fyth anghofio'r cymorth *ychwanegol* a roddodd i gannoedd o ddisgyblion Cwm Rhymni."

A bu i Delwyn gloi'r deyrnged gyda'r neges ddaeth oddi wrth un o ddisgyblion Cwm Rhymni:

"Cofion gorau i ti Miss Mathias. Meddwl amdanat ti bob dydd, a gweld dy eisiau yn fawr iawn. Diolch i ti am fy helpu gyda fy ngwaith, a diolch am dy **garedigrwydd** bob amser, ac am **ofalu** amdanaf, a gwneud yn siŵr fy mod yn gwneud fy ngore glas ar bob achlysur. Rwyt yn Seren."

Sul Adferiad 2022

Rhodri-Gwynn Jones

"Mae Oedfa Sul Adferiad Cymru yn ddigwyddiad blynyddol ers dros ddegawd bellach, pan gawn gyfle i weddïo am adferiad, a diolch amdano, ym mywydau unigolion, mewn cymunedau, yn ein cenedl a ledled ein byd. Adferiad oddi wrth beth? Pob dim sy'n caethiwo pobl a chymdeithas, boed yn ddefnyddiau, yn arferion neu'n deimladau. Mae'n gyfle i gydnabod heriau, ond hefyd i ddathlu bod atebion, ac i weddïo dros bawb sy'n gaeth a thros yr holl rai sy'n gweithio i gynnig iddynt rodd a gwyrth rhyddid. 'Os yw'r Mab yn eich rhyddhau chwi, byddwch yn rhydd mewn gwirionedd.'"



Wrth gyrraedd y capel ar fore Sul y 30ain o Hydref 2022, ar gyfer Oedfa Sul Adferiad, dan arweiniad Wynford Ellis Owen, rhoddwyd "Post-it" a phensel i bawb wrth iddynt gyrraedd, ond bu'n rhaid aros am fwy o gyfarwyddyd yn ddiweddarach yn yr oedfa!

'Roedd 'na groes bren wedi ei gosod ar ochr dde'r Set Fawr, ond eto dim eglurhad pam ei bod yno.

O'r diwedd, a'r oedfa yn prysur ddirwyn i ben, dyma wahoddiad gan Wynford:-

"Hoffwn yn awr eich gwahodd i ysgrifennu ar y darn o bapur a roddwyd i chi wrth ddod i'r gwasanaeth heddiw un gair, neu efallai enw cyntaf rhywun, y mae myfyrio ynghylch tangnefedd wedi ei osod ar eich cof a'ch ysbryd yn y gwasanaeth hwn, ac, yn ystod canu'r emyn nesaf, ddod â'r darn papur a'i osod gerbron y groes i'w gyflwyno mewn diolch a dyhead gerbron Duw."

Fe welwch o'r llun yr ymateb a gafwyd, ac ar ddiwedd yr oedfa fe gesglais y papurau oddi ar y groes bren, ac er gwybodaeth, 'roedd y mwyafrif ohonynt yn enwi unigolion i'w coffau (15), ychydig wedyn yn benodol yn enwi teulu (4), eraill yn cofio am bobl dramor a ddioddefai oherwydd rhyfel a thrychinebau (6), ac eraill yn nodi "heddwch" fel dyhead (3). Cyflwynais y wybodaeth i Wynford heb gynnig unrhyw ddadansoddiad pellach, a'i ymateb, "Cei eu traddodi i'r tân gan i'w dyheadau gyrraedd eisoes at y Nef."

Ac ar y dde, y 4 fu'n cynorthwyo yn yr oedfa



****

Leah yn diolch

Hoffwn ddiolch o waelod calon am y gefnogaeth a gefais wrth wynebu her Hanner Marathon Caerdydd. Llwyddom, fel criw, i gasglu dros £2,500! Swm rhyfeddol oedd yn sicr wedi rhoi tân dan draed ar y diwrnod. O ganlyniad i hyn, derbyniodd tair elusen swm hael o £850 yr un - sef Ambiwlans Awyr Cymru, Ysbyty Felindre a Mind Cymru.

Diolch i chi gyd am gyfrannu at achosion mor deilwng, am eich geiriau o anogaeth, ac am gydnabod y gamp. Mae'r coesau yn gorffwys am nawr, ond pwy a ŵyr am y dyfodol!

Diolch.

Bedydd Dwbl

Casi a Dafydd, efeilliaid Anwen ac Ed, yn ystod eu bedydd ym Methlehem rai wythnosau'n ôl bellach.

Dathlu Penblwyddi

Mae'r canlynol newydd ddathlu cyrraedd y degawd hwnnw yr arferid ei alw yn "oed yr addewid". Ond maen nhw'n edrych llawer yn iau na hynny:

- ***Shan Osborne, Yr Eglwys Newydd***
- ***Peredur Evans, Yr Eglwys Newydd***
- ***Alwyn Harding Jones, Ffynnon Taf***

Hwyrach fod rhagor – cofiwch roi gwybod i ni!

Hanesion y Cwrdd Merched

MIS HYDREF

Ar fore Gwener, 14eg o Hydref, gwelwyd cynulliad o 16 o aelodau Bethlehem – 13 gwraig a 3 gŵr dewr gafodd ganiatâd i ymuno â ni – yn cyrraedd canolfan y BBC yn y Sgwâr Canolog yn barod i fynd ar daith tywys. Stephen o gylch Llanelli a Gwenllian o Grymych oedd ein tywyswyr a chafwyd 1¾ awr difyr yn eu cwmni. Mae rhaglenni radio a theledu yn Saesneg a Chymraeg ar gyfer gwahanol sianelu'r BBC yn cael eu paratoi a'u darlledu o'r fan yma.

Cynlluniwyd yr adeilad mawreddog – sydd ar 4 llawr – gan gwmni Foster, cynllunydd y Shard yn Llundain, ac fel y gellid disgwyl, roedd yr adeilad ei hun yn creu tipyn o argraff arnom heb sôn am y dechnoleg anhygoel oedd y tu fewn iddo. Cawsom fynediad i Stiwdio Dylan Thomas ar y llawr isaf, sydd ar gyfer ffilmio dramâu, wedyn i fyny â ni i'r llawr cyntaf a chael gair gyda Tristan ac Emma, oedd newydd ddod i ben â'u rhaglen. Aethpwyd wedyn i'r stiwdio newyddion a'r tywydd a phwy oedd yno i'n cyfarch ond Rhodri Llewelyn! Roedd yn ddiddorol i glywed ganddo nad oes angen dynion camera yno mwyach gan fod y 4 camera sydd yn yr ystafell yn cael eu rheoli ar bellter gan gyfrifiaduron. Roedd hefyd yn gallu nodi i ni, cyn iddo ddod yn gyhoeddus, ei fod yn debygol y byddai datganiad yn cael ei wneud yn fuan am sefyllfa y Canghellor, Kwasi Kwarteng!

Roedd llu o ddesgiau gyda phobl yn gweithio ar eu cyfrifiaduron ar bob llawr gyda stiwdios o wahanol faintioli a gofod i'r technegwyr yn gysylltiedig â hwy. Roedd hyn yn oed to'r adeilad, a gardd yn y fan honno, yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer rhaglenni. Nodwyd bod yr adeilad yn 'wyrdd' iawn, gyda'r dŵr glaw yn cael ei grynhoi a'i ddefnyddio yn y toiledau a phaneli solar ar y to. Byddai toriad yn y cyflenwad trydan ddim yn broblem oherwydd roedd ardal tanddaearol yn sicrhau lle i 3 generadur anferth byddai'n dechrau gweithio o fewn llai nag eiliad o unrhyw doriad.

Wrth i ni ddod â'n hymweliad i ben cafodd Delyth Pollard y cyfle i fod o flaen y camera yn 'ferch tywydd' gan ddarllen y rhagolygon yn wych heb unrhyw lithriadau – swydd newydd iddi yn y dyfodol efallai!

Wedi i'n hymweliad ddod i ben, wrth i nifer ohonom eistedd y tu allan yn mwynhau coffi a chlonc, pwy ddaeth allan ond Rhodri oedd ar frys, gan iddo gael gorchymyn i ddal y trên nesaf i Lundain oherwydd bod datganiad ar fin cael ei gyhoeddi o rif 10 Stryd Downing. Wrth glywed y noson honno am ymddiswyddiad Kwasi Kwarteng, wel roeddem yn gallu dweud bod hwnnw'n 'stale news' i ni!

Delyth Evans

Hanesion y Cwrdd Merched (parhad)

MIS TACHWEDD



Agorodd Carol ein cyfarfod mis Tachwedd gydag esboniad a darlleniad o'r gerdd '*Dwy Law yn Erfyn'* a chawsom weddi bwrpasol gan Eirlys (Danescourt).

Arwel Ellis Owen oedd ein siaradwr gwadd y tro hwn. Cyflwynodd Marian ef fel "un o fechgyn Ysgol Dyffryn Nantlle" a oedd yn amlwg yn ddisgybl disglair yn y dyddiau cynnar hynny.

Testun ei sgwrs oedd "O Valpariso i Vladivostok". Cawsom ein cludo ar draws y byd trwy ffeithiau diddorol am wahanol wledydd yn ogystal a llawer o straeon difyr. Roedd gan Arwel focs lliwgar (o Fangladesh) yn cynnwys amrywiaeth o eitemau a gasglodd yn y gwahanol wledydd, pob un yn procio ei stori ei hun.

Dyma ambell enghraifft o'r 'daith':

- Rwsia - y KGB yn wyliadwrus ymhob ffordd, yn mynnu cyfieithu popeth a sgrifennwyd yn y Gymraeg. Profiad o orfod sefyll yr holl ffordd pan oedd yn hedfan o St Petersburg i Foscow!
- Valparaiso, Chile – Cymro yn gofyn ffafr, sef cludo anrheg adre i'w fam yng Nghiliau Aeron, a'r parsel yn cynnwys miliynau o ddoleri!
- India – ei fodryb oedd yn genhades yn Ceylon yn gwrando ar Caniadaeth y Cysegr o Lansannan. A pham na ddylid teithio ar y trên 9 o'r gloch yr hwyr o Delhi i Shimla!
- De Affrica – gwrth-apartheid. Cwrdd â Mandela.
- Saudi Arabia - enghreifftiau o'r cyfoeth di-fesur.
- Qatar – ymhell cyn i'r lle dyfu – y rheolau llym a phŵer y teuluoedd sydd mewn grym.
- Gogledd Iwerddon yn ystod y rhyfela, y perygl a'r gofid dwys.

'Taith' ddiddorol dros ben. Roedd mor hyfryd clywed straeon oedd mor bersonol. Diolch yn fawr i Arwel am eu rhannu yn ei ffordd unigryw ei hun.

Eirlys Lamb

Arwel oedd hefyd yn arwain yr oedfa ar Sul y Cofio eleni. Isod fe welwch gip ar y ddwy fu hefyd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth a'r plant ar fin adrodd eu hadnodau.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifynnau o

Gair bach Bethlehem

eto eleni - yn lluniau a geiriau.

A diolch i chi am ei ddarllen!

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Ionawr 16 2023 (ar ôl y Plygain): *tycnau@aol.com*

O'r Archif *Rhodri-Gwynn Jones*

Bethlehem a Chaniadaeth y Cysegr – yn 1897

Do, 'rydym ninnau wedi llwyddo o'r diwedd i sicrhau bod lleisiau cynulleidfa bresennol Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn blant ac oedolion, ar gael er budd cenedlaethau'r dyfodol, a hynny , fe gofiwch, pan recordiwyd Caniadaeth y Cysegr ar y 6ed o Dachwedd eleni, ar gyfer darllediadau ar Radio Cymru.

Fe fu cynulleidfaoedd eraill yn y gorffennol, rhai ohonynt wrth reswm yn cynnwys aelodau sy'n parhau yn ein mysg hyd y dydd heddiw, yn dyst i ddigwyddiadau tebyg er budd gwasanaethau radio a theledu yn y Gymraeg.

Tybed a fyddai modd olrhain hynt a helynt peth o'r hyn sydd eisoes ar ffurf sain a llun yn enw Bethlehem? Hwyrach yn wir eich bod wedi gwneud recordiad sain neu fideo o rai ohonynt? Rhowch wybod!

Wrth chwilota y dydd o'r blaen yn yr archif, deuthum ar draws cyfeiriad at "ganiadaeth y cysegr" ym Methlehem yn 1897! A hynny, wrth gwrs, ymhell bell cyn bod sôn na syniad am Radio Cymru nag S4C!

Diolch serch hynny, bod yna wasg Gymraeg go brysur yn bodoli bryd hynny, ac yng nghylchgrawn "Y Diwygiwr" Awst 1897 [tud: 252-253] y gwelais y canlynol (cadwyd at yr orgraff wreiddiol):-



252

ANERCHIAD MEWN CYMANFA GANU
YN BETHLEHEM, PENTYRCH.

Gan Mr. T. Price.

AGWEDD ddymunol iawn ar fywyd crefyddol y dyddiau presenol yw y llafur mawr sydd i'w ganfod mewn cysylltiad a chaniadaeth y cysegr. Y mae mwy o ymdrech cyffredinol yn cael ei wneud gyda'r rhan brydferth hon o'r gwasanaeth crefyddol nag a welwyd mewn un oes o'r blaen. Un o'r arwyddion sy'n profi fod yr Eglwys yn fyw i'w dyledswydd yn y cyfeiriad hwn yw y ffaith ei bod wedi llwyddo i raddau helaeth iawn i gael gan aelodau yr ysgol gân a'r Ysgol Sabbathol, y rhai oedd gynt wedi ei meddianu gan yr ysbryd cystadleuol fu ac y sydd yn ffynu yn ein gwlad, i gysegru eu hamser a'u talentau i berffeithio caniadaeth y cysegr. Dywedais fod yr ymdrech yn fwy cyffredinol nag yr oedd gynt. Eithaf gwir; ond nid yw yn ddigon cyffredinol eto. Mae gormod o duedd yn bodoli i adael y canu i'r bobl ieuainc. Nid oes yr un rheswm dros wneud hyny. Dylai yr hen, yr ieuanc, a'r canol oed gymeryd eu rhan yn y gwaith pwysig hwn. Ni fydd y canu yn ganu cynulleidfaol yng ngwir ystyr y gair hyd nes y bydd i hyny gymeryd lle. Nid oes dim yn fwy prydferth i mi na gwrando ar yr hen, yr ieuainc, a'r canol oed yn arllwys allan eu teimladau crefyddol "mewn sain cân a moliant" i'r Duw Goruchaf.

"Anerchiad mewn Cymanfa Ganu yn Bethlehem, Pentyrch" gan Mr T Price"

Agwedd ddymunol iawn ar fywyd crefyddol y dyddiau presennol yw y llafur mawr sydd i'w ganfod mewn cysylltiad a chaniadaeth y Cysegr. Y mae mwy o ymdrech Cyffredinol yn cael ei wneud gyda'r rhan brydferth hon o'r gwasanaeth crefyddol nag a welwyd mewn un oes o'r blaen. Un o'r arwyddion sy'n profi fod yr Eglwys yn fyw i'w dyledswydd yn y cyfeiriad hwn yw y ffaith ei bod wedi llwyddo i raddau helaeth iawn i gael gan aelodau yr ysgol gân a'r Ysgol Sabbathol, y rhai oedd gynt wedi ei meddianu gan yr ysbryd cystadleuol fu ac y sydd yn ffynu yn ein gwlad, i gysegru eu hamser a'u talentau i berffeithio caniadaeth y cysegr. Dywedais fod yr ymdrech yn fwy Cyffredinol nag yr oedd gynt. Eithaf gwir; ond nid yw yn ddigon Cyffredinol eto. Mae gormod o duedd yn bodoli i adael y canu i'r bobl ieuainc. Nid oes yr un rheswm dros wneud hynny. Dylai yr hen, yr ieuanc, a'r canol oed gymeryd eu rhan yn y gwaith pwysig hwn. Ni fydd y canu yn ganu cynulleidfaol yng ngwir ystyr y gair hyd nes y bydd i hyny gymeryd lle. Nid oes dim yn fwy prydferth i mi na gwrando ar yr hen, yr ieuainc, a'r canol oed gymeryd eu rhan yn y gwaith pwysig hwn. Ni fydd y canu yn ganu cynulleidfaol yng ngwir ystyr y gair hyd nes y bydd i hyny gymeryd lle. Nid oes dim yn fwy prydferth i mi na gwrando ar yr hen, yr ieuainc, a'r canol oed yn arllwys allan eu teimladau crefyddol "mewn sain cân a moliant" i'r Duw Goruchaf.

Yn awr, wedi cyrraedd graddau o berffeithrwydd yn y gangen hon o gerddoriaeth yr ydym mewn perygl i lithro i'r amryfusedd o ganu tônau ac emynau gydag amcanion israddol, os nad annheilwng hollol. Er engraifft, ni ddylid canu cerddoriaeth a barddoniaeth ty yr Arglwydd er difyru cynulleidfa eisteddfodol, na phan yn rhodiana o fan i fan yn anystyriol. Peth i'w angymeradwyo yn fawr yw gwaith arweinwyr yr eisteddfod, pan wedi colli pob Llywodraeth ar y gynulleidfa, yn taro un o'r tônau mwyaf poblogaidd a fedd y Cysegr er adferyd trefn. Dylid hefyd osgoi gwneud display o bethau mor gysegredig, a meithrin mwy o barchedigaeth tuag atynt. Dylid eu canu gyda'r Defosiwn mwyaf. Yr amcanion mewn golwg pan yn gwneud hyny ddylai fod, lleshad yr enaid a gogoniant i Dduw. Pan fyddo'r amcanion hyn yn cael eu sylweddoli gwresogir pob sain gan gariad calon, wedi ei chysegru yn deml santaidd i'r Arglwydd. Mae yr effaith y pryd hyny yn annhraethol…

…Os oes yma rywun am wneud enw iddo ei hun a fydd ar gael yn yr oesau a ddel, y ffordd iddo wneud hyny yw, ei gerfio yn mawl yr Eglwys. Na fydde i neb o honom i ymfoddloni ar hyn yn unig, ond bydded i ni ymdrechu ar ein cael yn y Gymanfa fawr tu hwnt i'r llen,"

Nid oedd amser yn caniatáu i mi geisio mwy o wybodaeth am Mr T Price, ond mae'n deg gofyn beth fyddai cynnwys araith o'i eiddo heddiw tybed?

Ar gyfer eich hosan chi'ch hunan!

Chwilio am anrhegion Nadolig sy'n cynnwys gwaith dau o'r rhai prysuraf yn ein plith ym Methlehem? Mae sawl dewis o ddeunydd darllen i'w gael a thoreth o CD's yn cyrraedd cyn y Nadolig - ond dyma gyfle i sôn am lyfr a CD lle ceir cyfraniadau gan ein cyn-weinidog yn y naill a'n harweinydd ar y llall!



"Meistri'r Awen" ydy'r gyfrol mewn print – portreadau a dadansoddiad o gyfraniad chwe meistr o'r dyddiau a fu – B.T. Hopkins (Blaenpennal), John Evans (Llanegryn), Einion Evans (Sir y Fflint), Bedwyr Lewis Jones, Caradog Prichard a'r Dr Iorwerth Peate.

Edmygwyr o'r chwech dan sylw sydd wedi cyfrannu i'r gyfrol, felly prin bod angen egluro mai'r Parchedig Ddr R Alun Evans ddewiswyd i roi ei linyn mesur ar yr arloeswr o Lanbrynmair. Mae dadansoddiad Alun yn un hynod onest – gan nodi, yn ogystal â'i weledigaeth wrth sefydlu Sain Ffagan a'i gyfraniad fel bardd, na fu barn a gweithredoedd Iorwerth Cyfeiliog Peate at ddant pawb!

Mae steil y cyfraniadau eraill yn amrywio – o'r portread hynod gynnes ac annwyl o'r direidus "Sion Ifan" Llanegryn, arferai lanw'r Babell Lên gyda'i sylwadau ar yr englynion ysgafn, hyd at y dadansoddiad eithriadol o graff ac academaidd fanwl o waith y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones. Cyhoeddiadau Modern Cymreig ydy'r cyhoeddwyr, a'r Parchedig D Ben Rees ydy golygydd y gyfrol yn ogystal ag awdur y portread o Caradog Prichard.

A beth am y CD? . Os bu i chi fynychu Cylch Cadwgan yn y festri dro nôl, fe fyddwch wedi cael rhagflas o CD Delwyn Sion, sef **"Arfer Dod â Blode".** Ar y dde fe welwch y gwr ei hun yn egluro'r gwahanol elfennau sydd yn y gwaith celf gan Teresa Jenellen ar y clawr.

Fe eglurodd Delwyn yr hyn oedd tu ôl i'r caneuon a'r modd maen nhw'n cynrychioli ei fagwraeth a'i gymuned yn Aberdâr. Ceir crynodeb o hyn yn y llyfryn gyda'r ddisg. Dim ond gobeithio na chawn achos i ddyfynnu gormod ar eiriau "Diwel hi lawr!" yn ystod y gaeaf hwn.

"Recordiau dies" ydy'r cyhoeddwyr (dwedwch e'n araf, ac fe rydd hynny gliw bach i chi!) a dyma rif 002 gan y cwmni. Dichon y gall y canwr eich cyfeirio at y cwmni'n weddol ddi-drafferth.

Ein Nadolig cyntaf yng Nghaerdydd

Ifan Roberts

Ein Nadolig cyntaf yng Nghaerdydd oedd hi – dau newydd briodi rai misoedd ynghynt ac yn meddwl byddai'n sbort treulio'r ŵyl yn ein bocs bach o gartref newydd ar gyrion y brifddinas. Roedd fy modryb draw yn sir Fôn wedi'n sicrhau byddai gennym wŷdd fel prif ddantaith ein gwledd Nadoligaidd – un o'r haid gwyddau roedd hi'n fagu'n flynyddol ar gyfer achlysur o'r fath.

Yn fy llencyndod bum yn rhan o'r broses boenus yn Rhagfyr o orfod bod yn un o'r rhai fyddai'n pluo i Modryb Meri yn y cwt boeler. Bum hefyd yn delifro'n lleol ar eu rhan ar gefn beic hynafol un-sbîd fy modryb. Ond ar gyfer ei chwsmeriaid mwy gwasgaredig, roedd hi'n arfer gan fy modryb i anfon adar drwy'r post, fel byddai'r Nadolig yn nesáu. Roedd hyn, i fod yn deg, mewn cyfnod ple byddai parsel yn cyrraedd o fewn diwrnod ar ôl eu hanfon.

Erbyn 1965, roedd Margaret a minnau ymhlith y cwsmeriaid gwasgaredig hynny ac fe gyrhaeddodd yr aderyn nobl – os efallai'n dra chynnar. Doedd ganddon ni ddim rhewgist, na neb o'n cyfeilion agosaf un yr adeg honno. Doedd ganddon ni ychwaith ddim ffridj ddigon mawr ond fe gawson ni gynnig lle yn ffridj fwy ein ffrindiau.

Pan gyrchwyd yr wŷdd yn nes at y diwrnod mawr roedd yna awgrym fod yr aderyn efallai yn dechrau 'mynd i oed'! Cyngor Mamgu dros y ffôn o Bontarddulais oedd golchi tu mewn i'r aderyn â finegr. Hynny a wnaed.

Aeth gwŷdd Anti Meri i'r popty yn unol â'r cyfarwyddiadau ond fel yr oedd hi'n nesáu at ein cinio Nadolig cyntaf, daeth yn weddol amlwg nad oedd yr arogleuon yn dilyn disgrifiad unrhyw lyfr rysetiau.

Bu'n rhaid anghofio am y saig traddodiadol a setlo am gig moch a wyau ynghyd â'r llysiau. Ac yn dawel fach, heb i ni orfod yngan gair wrth fy modryb, cytunodd fy ewyrth i'w darbwyllo hi i beidio anfon adar drwy'r post byth mwy. Tybed sawl cwsmer pell arall oedd wedi cael cig moch a wyau dros y blynyddoedd?

ODLAU'R GARTH 1

Drwy gyd-ddigwyddiad, gwaith yr un rhai â'r llynedd sy'n cloi 2 dudalen olaf y rhifyn hwn. Mae'r dudalen gyntaf gan Hannah Roberts – atgofion yn nhafodiaith Cwm Tawe, ac yna englyn a cherdd o'i gwaith:

HOSAN 'DOLIG

Pwy sy'n cofio hongian hosan wrth bostyn y gwely nos cyn 'Dolig? Yn y mhlentyndod i, o'dd rhaid i honno fod yn hen hoson wlân Dad, cnau yn y gwaelod ac yna oren, a 'na gyd! Ac yna' UN presant arall, o'dd dim ishe sach fawr ar Sion Corn pyrt hynny! O'dd ca'l oren amser rhyfel yn speshal gan fod prinder ffrwythe.
W i'n dal i gysylltu gwynt Tangerines a'r Nadolig am taw dim ond pyrt hynny fydden i'n ca'l nhw. Gyferbyn a fi fan hyn ma hewl o'r enw Tangmere Drive, Tangerine Drive yw hi 'di bod i fi erio'd!!!!! A'r UN presant arall geso i yn bum mlwydd o'd o'dd y ddol Miriam, a gallaf glywed hi'n dŵad yn ei phram bren o wneuthuriad Dad a'r olwynion yn atseinio ar linoliym y landin.
Ma 'na hanes bach am ddechreuad yr hosan 'Dolig.
Sant Niclas yn aros gyta theulu tlawd ac ishe diolch iddy' nhw.
Ar ei ymadawiad, towlodd gwtyn yn llawn aur drwy'r ffenest' ac fe ddishgynnodd mewn hosan! Mewn fersiwn arall, taflwyd pelen aur ddatblygodd i mewn i'r oren. Hefyd credir taw dyna sail y tair pelen ar yr arwydd tu fa's i shop "Pawnbroker".

WRTH Y GWELY

Yn eisiau, just un hosan—yn un fawr
awn fory i'w hongian,
pan ddaw'r wawr, gwel mawr a a mân
fod ei sled wedi hedfan.

Dedlein rhifyn nesaf ...

Gair bach Bethlehem

Ionawr 16 2023 (ar ôl y Plygain):
tycnau@aol.com 077 61 82 69 77

Yr Hen Hosan

Dyma fi'r hen hosan
yn cuddio yn y drâr,
'w i nawr ar ben fy hunan
lle'r unwaith o'n i'n bâr.

'W i yma'n eitha unig,
neb yn fy newis mwy,
pan ma nhw i gyd yn gwisgo
ma nhw wastod ishe dwy.

Rhai bach yw'r lleill, rhai lliwgar
a finnau'n llwyd ddi-lun,
yma fydda i mwyach
mewn drâr ar ben fy hun.

Un o sane Dad o'n i
bues gyda fe'n y Pwll,
ond nawr ma'r lofa wedi cau
a finne'nawr a thwll!

Ond heno ma 'na gyffro!
'w i'n ca'l fy nhynnu mas
a Iolo'n gafael ynof
cyn mynd lan y sta'r ar ras.

Caf fy hongian wrth ei wely
a'm gadael yma nawr,
fe geso i fy newis,
dim ond fi o'dd ddigon mawr.

Ma Iolo yn ei wely
a'i lygaid bach yn dyn,
ma'r nos yn hollol ddistaw
tu fa's---yr eira gwyn.

Ond ust-wi'n clywed rhywbeth
ryw sŵn ar ben y to,
ac yna, troed 'ny simne
a llais yn gweud "Helo!"

A nawr ma' rhywun yma.
hen ddyn yn cario sach,
mae e'n dechre llanw ngheg i
a phethe i Iolo bach.

Wrth gwrs! 'Dw i'n hosan 'Dolig
'dw i'n hapus, hapus, nawr
am taw **FI** yw hosan Santa
dim ond **FI** o'dd ddigon mawr.

Hannah Roberts

ODLAU'R GARTH 2

Mae'r "Wal" wedi ysgogi dau o'n beirdd y tro hwn. Rhys Powys wedi mynd ar ôl Wal Goch y cefnogwyr pêl-droed, tra Martin Huws wedi mynd ar drywydd wal arall. Ac yna Wynford Ellis Owen am i ni gofio englyn ei ddiweddar dad a gwir ystyr yr ŵyl.

Y Wal Goch

Y wal sy'n canu o'r galon;
Wal o arwyr, coch fel aeron,
Di-guro'n udo'u geiriau.

Mae miloedd o hetiau melyn,
Lliw y rhwd a lliwiau'r rhedyn,
Eu hemyn'n alaw gemau.

Gwêl y rhesi gwely rhosod,
A'u hafiaith; dilyn y ddefod,
Yn barod; gwag yw'r bariau!

Nid wal pabi ond wal pobol,
Yn benwan, yn annibynnol
Tu ôl gôl - dyma'u gwyliau!

Rhys Powys

NADOLIG

Celyn a thelyn a thân – ar aelwyd,
A charoli diddan;
A'r hen fyd i gyd yn gân
O achos y Mab Bychan.

Robert Owen

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB OHONOCH



Wal

Uwch ein pennau y safai,
yn llwyd, yn llym
fel bownsyr balch.

Pan o'dd yr hafe'n hir
fe gadwai lygad
ar ein hwpo a'n sgwto,
ein geirie geirwon,
ias hen flas ar fyw.

Yswn am ddringo dros ei hysgwydd
i achub ci strae o bêl
rhag gafel y dryswch a'r drain
cyn diasbedain berw barbaraidd.

Yn amal,
sigwn 'y mhen-glin
a wherthin i gladdu'r llefen.

Pan o'dd yr hafe'n hir
ro'dd antur yn gyffur yn y gwa'd:
croesi ffin i dir gwaharddedig
lle o'dd arwydd yn waedd groch
cyn i drên â'i gerydd o gorn
drystio lawr o'r cwm,

Ro'dd hynny amser maith yn ôl.

Heno,
o dan garthen sy'n gwneud gwep,
gorweddwn fel dou leden ar stondin farchnad
a wal na welwn sy rhyngom,
y troedleoedd wedi treulio.

Erbyn hyn,
yr ochor draw
dychryn yw'r dryswch a'r drain.

Martin Huws